


Mae arddangos eich bathodynau digidol yn ffordd wych o ddangos eich doniau ac amlygu eich sgiliau a'ch cyraeddiadau proffesiynol arbennig i'ch cysylltiadau. **Gallwch ychwanegu eich bathodyn digidol Moodle i'ch proffil LinkedIn trwy ddilyn rhai camau syml:**

Sut i gael gwybodaeth y bathodyn o Moodle

Mewngofnodwch i Moodle ac ewch i'ch proffil chi trwy ei ddewis o'r ddewislen bersonol. Yn nangosfwrdd eich proffil, fe welwch yr holl fathodynau rydych chi wedi'u hennill. Dewiswch y bathodyn rydych chi am ei allgudo a chliciwch ar ei enw o dan y ddelwedd.




Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen manylion y bathodyn. Mae hyn yn dangos y metadata y bydd unrhyw un a fydd yn clicio ar eich bathodyn, e.e., yn LinkedIn, yn ei weld. Mae'n cynnwys cadarnhad o gyhoeddwr y bathodyn (PCYDDS) ynghyd â Disgrifiad a gwybodaeth am y meini prawf a fodlonwyd gennych i ennill y bathodyn. O frig ffenestr y porwr, copi'wch yr URL hir, sy'n edrych yn debyg i: **<https://moodle.uwtsd.ac.uk/badges/badge.php?hash>**. Trwy dde-glicio ar yr URL, dewisir y cyfan a gallwch ei gopïo i'ch clipfwrdd. Gallwch hefyd glicio Lawrlwytho i gadw copi o ddelwedd y bathodyn.



Sut i ychwanegu bathodyn Moodle i LinkedIn

Mewngofnodwch i'ch proffil LinkedIn. Ar y bar dewislen ar y brig, o dan y tab 'Me' (fel arfer o dan eich llun proffil:), cliciwch ar y saeth i lawr, ac yna 'View profile'. Cliciwch 'Add profile section' ac yn y gwympfen, dewiswch y ddewislen 'Recommended' a chliciwch 'Add license and certifications'.



Ym mhob blwch, copi'wch y wybodaeth berthnasol o dudalen y Bathodyn ym Moodle. **Enw'r bathodyn** (o dudalen y bathodyn, adran manylion y Bathodyn)

Awdurdod ardystio: Dechreuwch deipio 'University of Wales' ac yna dewiswch y brifysgol pan fydd hi'n ymddangos yn y blwch.

Dyddiad cyhoeddi: rhowch y mis a'r flwyddyn (o adran dyddiad dod i ben y Bathodyn ar dudalen y bathodyn)

Os nad oes dyddiad dod i ben (arferol) gwiriwch fod "This credential does not expire" wedi'i glicio. Sgrolwch i lawr (gallwch hepgor y maes ID) ac yn "Credential URL" gludwch URL y bathodyn a gopiwyd gennych yn gynharach yn y cam uchod.

Nawr cliciwch ar y botwm 'Save' i ychwanegu'r wybodaeth i'ch proffil LinkedIn.

Rydych chi wedi cwblhau'r broses. Yn awr, dylai eich bathodyn digidol agored gan y Brifysgol fod i'w weld ar eich proffil LinkedIn.

